Atebion: Rownd 4 Cwis Noson Llyfrau'r Byd

Answers: World Book Night Quiz Round 4

O'r Llyfr i'r Sgrîn Fawr

Fedrwch chi ddyfalu'r ffilm yn seiliedig ar y llyfrau yma?

From Books to Movies

Can you guess the film based on these books?

1. Die Hard

   Ar thema'r llyfr *Nothing Lasts Forever* gan Roderick Thorp.

Ysgrifennodd yr awdur Roderick Thorp *Nothing Lasts Forever* ar ôl gwylio *The Towering Inferno,* sy'n cynnwys nendwr sy'n mynd ar dân. Dychmygodd Thorp grŵp o derfysgwyr gyda gynnau yn mynd ar ôl ei gymeriad Joe Leland, ditectif NYPD wedi ymddeol, trwy ludw tanllyd y nendwr.

2. The Parent Trap

   Ar thema'r llyfr *Lottie and Lisa (Das Doppelte Lottchen)* gan Erich Kästner.

Roedd y ffilm wreiddiol Disney, gyda Hayley Mills, yn seiliedig ar nofel Almaenaidd o'r enw *Lottie a Lisa (Das Doppelte Lottchen)* gan yr awdur Erich Kastner. Cyhoeddwyd y nofel am y tro cyntaf ym 1949 a chafodd ei throi yn amryw addasiadau ffilm a theledu o naw gwlad, gan gynnwys yr Uned Daleithiau, Yr Almaen, India, Siapan, ac Iran.

3. Rambo: First Blood

   Ar thema'r llyfr *First Blood* gan David Morrell.

Gwerthodd yr awdur David Morrell yr hawliau ffilm i'w nofel *First Blood* yn 1972, yn fuan ar ôl iddi gael ei chyhoeddi. Ond aeth yr eiddo trwy gyfnod datblygu helaeth, roedd amrywiaeth o fersiynau o'r sgript ffilm oherwydd y pwnc a'r themâu ynghylch Rhyfel Fietnam.

4. Clueless

   Ar thema'r llyfr *Emma* gan Jane Austen.

Mae comedi plant yn eu harddegau Amy Heckerling yn addasiad ffilm o nofel 1815 Jane Austen, Emma.

Atebion: Rownd 4 Cwis Noson Llyfrau'r Byd

Answers: World Book Night Quiz Round 4

5. Cruel Intentions

Ar thema'r llyfr *Les Liaisons dangereuses* (*The Dangerous Liaisons*) gan Pierre Choderlos de Laclos

Bu *Les Liaisons Dangereuses (The Dangerous Liaisons)* yr awdur o Ffrainc, Pierre Choderlos de Laclos, yn ysbrydoliaeth ar gyfer y ffilm hon. Symudodd cyfarwyddwr y ffilm y stori o'r 18fed ganrif i'r presennol, ac yn lle cynnwys aristocratiaid Ffrainc, creodd ei gymeriadau fel plant cyfoethog a breintiedig yn eu harddegau, yn byw yn Efrog Newydd.

6. Slumdog Millionaire

Ar thema'r llyfr *Q&A* gan Vikas Swarup.

Roedd y *ffilm* hon a enillodd Wobr yr Academi yn seiliedig ar *Q&A* gan yr awdur o India Vikas Swarup, a gyhoeddwyd gyntaf yn 2005. Dilynodd y nofel blentyn ifanc amddifad sy'n dod yn enillydd sioe gwis llwyddiannus iawn, ac yn cael ei anfon i'r carchar o dan gyhuddiadau o dwyllo.

7. Hook

Ar thema'r llyfr *Peter Pan* gan J.M Barrie.

Pan fydd Capten James Hook yn herwgipio ei blant, mae'n rhaid i Peter Pan, fel oedolyn, ddychwelyd i Neverland ac adennill ei ysbryd ieuenctid er mwyn herio ei hen elyn.

8. Goodfellas

Ar thema'r llyfr *Wiseguy* gan Nicholas Pileggi.

Roedd y ffilm glasurol hon yn cynnwys Robert de Niro, Joe Pesci a Ray Liotta. Mae'r ffilm, a gyfarwyddwyd gan Martin Scorsese, yn dilyn stori Henry Hills o'i blentyndod nes dod yn giangster profiadol - yn union fel yr oedd Henry eisiau. Yn glasur yn ei genre, enwebwyd y ffilm hon am nifer o wobrau.

9. Babe

Ar thema'r llyfr *The Sheep Pig* gan Dick King Smith.

Enillodd y nofel hon wobr ffuglen Plant y Guardian yn1984 ac mae'n adrodd hanes ysbrydoledig mochyn bach swil nad yw'n gwybod yn iawn ble mae ei le yn y byd. Ond pan fydd y ffermwr Hoggett (James Cromwell) yn ei ennill yn y ffair sirol, mae'r mochyn yn darganfod y gall fod yn unrhyw beth mae am fod - hyd yn oed ci defaid arobryn!

Atebion: Rownd 4 Cwis Noson Llyfrau'r Byd

Answers: World Book Night Quiz Round 4

10. 10 Things I Hate About You

Ar thema'r llyfr *The Taming of the Shrew* gan William Shakespeare.

Ystyrir hon yn aml fel un o ffilmiau gorau'r 90au! Yn y ffilm, mae Cameron yn syrthio mewn cariad â'r ferch fwyaf poblogaidd yn yr ysgol, Bianca, ond oherwydd rheolau llym ei thad, mae'n rhaid iddo ddod o hyd i rywun sy'n fodlon mynd allan â'i chwaer, Kat, cyn caiff yntau fynd â Bianca allan. Yn y ddrama enwog hon, mae cariadfeibion posibl ei chwaer yn trefnu i Katherina gael carwriaeth gyda Petruchio.

11. Kes

Ar thema'r llyfr *A Kestrel for a Knave* gan Barry Hines.

Cyfarwyddwyd y ffilm hon gan Ken Loach ac roedd yn cynnwys Colin Welland a Brian Glover. Adroddodd y ffilm hon stori bachgen a'i anifail anwes

12. Bed Knobs and Broomsticks

Ar thema'r llyfr *The Magic Bed Knob* gan Mary Norton.

Gwnaed y ffilm hon yn 1971 ac enwebwyd y llyfr a ysbrydolodd y ffilm ar gyfer Gwobr Retro Hugo. Mae'r ffilm yn ffocysu ar dri o blant, Mrs Price a gwely hudolus sy'n mynd â nhw ar deithiau i Ynys Ueepe ym moroedd pell y De!

13. Field of Dreams

Ar thema'r llyfr *Shoeless Joe* gan W P Kinsella.

Mae Ray Kinsella yn byw ac yn ffermio yn Iowa lle y mae'n tyfu ŷd gyda'i wraig Annie a'u merch pump oed Karin. Mae gan Kinsella obsesiwn gyda harddwch a hanes pêl fâs Americanaidd, yn benodol trallodion ei arwr, Shoeless Joe Jackson, a Sgandal y Black Sox yn ystod Cyfres y Byd ym 1919. Pan fydd yn clywed llais yn dweud wrtho adeiladu cae pêl fâs ynghanol ei gnwd ŷd er mwyn rhoi cyfle i'w arwr adfer ei hun, mae'n dilyn y cyfarwyddiadau yn ddi-gwestiwn.

14. Blade Runner

Ar thema'r llyfr *Do Androids Dream of Electric Sheep?* gan Philip K Dick.

Cafodd bywyd y Ddaear ei niweidio'n wael gan ryfel niwclear fyd-eang sy'n gadael y rhan fwyaf o rywogaethau anifeiliad yn mewn perygl neu'n ddiflanedig. Mae'r prif stori yn dilyn Rick Deckard, heliwr bownti, a gaiff y dasg I ladd chwe android model Nexus 6 sydd wedi dianc.